Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llangollen
Pengwern
Llangollen
Denbighshire
LL20 8AR

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/03/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llangollen sy'n cwrdd mewn ystafell yn Eglwys Penllyn yng nghanol y dref, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r lleoliad yn cynnig addysg a gofal i blant o ddwy a hanner i bedair oed rhwng 8.30 a 11.00 y bore, pum diwrnod yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bum bore'r wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant fesul sesiwn. Mae 24 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda 11 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod.

Saesneg yw prif iaith y cartref bron pob un o blant y lleoliad.

Mae pedwar aelod o staff profiadol a chymwysedig yn gweithio yn y lleoliad ac un gwirfoddolwr. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2013.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ionawr 2017 a gan Estyn ym mis Gorffennaf 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n briodol o'u man cychwyn
- medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n llwyddiannus
- bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus yno
- llawer o blant yn datblygu medrau dysgu annibynnol da
- bron pob un yn ymddwyn yn dda, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais
- ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus
- y lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr nodau ac amcanion clir a phwrpasol sy'n gosod pwyslais cadarn ar sicrhau lles a chynnydd y plant
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac mae ymdeimlad o dîm yn gryf
- gan y lleoliad ethos gweithgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
- ymarferwyr yn defnyddio arweiniad a chyngor gan asiantaethau allanol yn fedrus er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau
- gan y lleoliad bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a phrofiadau dysgu plant
- y lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant
- ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu eu gwybodaeth a medrau addysgu
- cysylltiadau da rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd leol yn paratoi'r plant yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

A2 Parhau i ddatblygu'r ardal allanol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant

A3 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu'n adnabod blaenoriaethau pwysig ar gyfer gwelliant

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn gan ddatblygu medrau dysgu annibynnol effeithiol. Maent yn cymhwyso'u medrau mewn gwahanol gyd-destunau ar draws pob maes dysgu'n llwyddiannus.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n llwyddiannus o waelodlin isel. Maent yn gwrando'n ofalus ar storïau ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymuno i ganu caneuon a hwiangerddi cyfarwydd yn llwyddiannus gan wneud y symudiadau priodol. Maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau a chyfarchion yn addas gan ddefnyddio cystrawen a geirfa gyfarwydd, er enghraifft trwy ymateb i sut ydynt yn teimlo neu sut dywydd ydy hi heddiw. Mae'r rhan fwyaf yn dod o hyd i'w henwau heb gymorth pan fyddant yn eistedd i fwyta byrbryd ac maent yn medru adnabod lliwiau'n gywir. Mae bron pob un o'r plant yn creu marciau yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a phensiliau lliw. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau a'u cynnwys gan ymateb yn frwdfrydig i storïau.

Mae medrau rhif llawer o'r plant yn datblygu'n dda ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae llawer yn adrodd rhifau hyd at 10 ac yn cyfateb rhif a gwrthrychau'n llwyddiannus. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn patrymau syml yn gadarn wrth ddefnyddio cadwyn fwclis i osod lliwiau mewn trefn.

Mae gan fwyafrif o'r plant fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) priodol. Maent yn dechrau defnyddio tegan llechen gyfrifiadurol yn addas yn y cornel tawel er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau.

Mae gan lawer o'r plant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn cydbwyso'n fedrus wrth gamu o un bloc i'r llall a rheoli beic yn yr ardal allanol. Mae bron pob un yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol 'Mercher mwdlyd' yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel brwshys paent, sialc a chreonau. Mae medrau llawer o'r plant o ran datrys problemau yn datblygu'n llwyddiannus.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn hapus yno. Mae'r rhan fwyaf wrth eu bodd yn cymryd rhan yn yr ystod o weithgareddau ac mae llawer yn dyfalbarhau am gyfnodau rhesymol. Mae llawer ohonynt yn trafod eu gwaith gyda'i gilydd ac oedolion yn frwdfrydig ac yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Mae bron pob un yn dewis gweithgareddau'n annibynnol ac yn hyderus wrth ymgymryd â dyletswyddau fel paratoi'r byrbryd ar gyfer eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau dysgu annibynnol da, er enghraifft wrth wisgo a dadwisgo cotiau a threfnu bocsys mewn rhes er mwyn camu ar draws yr ardal allanol.

Mae bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda, yn ystyriol o eraill ac yn gwrtais. Maent yn dysgu cymryd eu tro, rhannu ac arfer hunanreolaeth yn dda. Mae bron pob un plentyn yn helpu tacluso pan ofynnir iddynt ac maent yn dangos parch tuag at yr ardaloedd dysgu ac adnoddau’r lleoliad. Maent yn cydweithio’n ddaâ’u cyfoedion ac yn dewis gweithgareddau’n aeddfed ac yn annibynnol.

Yn ystod amser byrbryd, mae rhan fwyaf o’r plant yn arddangos medrau cymdeithasol da. Maent yn gwrtais wrth eistedd gyda’u cyfoedion ac yn dysgu dweud ‘diolch’ wrth gymryd lluniaeth. Mae bron pob un yn dangos ymwybyddiaeth dda o hylendid da trwy olchi eu dwylo cyn bwyta. Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd bwyta ffrwythau er mwyn cadw’n iach ac maent yn gwneud dewisiadau iachus yn ddyddiol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cynnig ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy’n ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn cyd-gynllunio cwricwlwm eang yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r gweithgareddau dysgu yn seiliedig ar ddysgu a phrofiadau blaenorol y plant ac yn adeiladu ar eu medrau a’u gwybodaeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymchwilio a darganfod dros eu hunain ac i feithrin medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Trwy weithredu ar arsylwadau ymarferwyr ar gynnydd unigolion, mae’r lleoliad yn llwyddo i fodloni anghenion bron pob un plentyn yn effeithiol. Mae’r cynlluniau yn nodi amcanion dysgu clir ar gyfer gweithgareddau ffocws a gweithgareddau cyfoethogi. Maent yn cynnwys defnydd da o ardaloedd pwrpasol tu fewn, yn ogystal â chynllunio ar gyfer gweithgareddau yn yr ardal allanol. Mae’r ymarferwyr yn cynnwys syniadau’r plant yn briodol yn y cynlluniau ar ddechrau pob thema.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn fedrus ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau hyn. Enghraifft dda o hyn yw’r cynlluniau pwrpasol sy’n datblygu iaith lafar y plant trwy weithgareddau ac ymarferion buddiol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol, meddwl a chreadigol, gan gynnwys peintio a gwneud marciau gyda blociau iâ o wahanol liwiau. Er bod y plant yn cael ychydig o gyfleoedd i ddefnyddio offer TGCh, nid yw’r cynlluniau ar gyfer datblygu medrau’r plant yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu medrau TGCh yn ddigon systematig ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig trwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu, er enghraifft trwy ymweld â’r orsaf dân fel rhan o’u gwaith am bobl sy’n ein helpu. Mae’r plant yn ymweld â’r siop leol yn wythnosol i brynu ffrwythau. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o fywyd pob dydd o fewn eu cymuned.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol, sy’n annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o gefndir diwylliannol gwahanol. Enghraifft dda o hyn yw gweithgareddau a phrofiadau dysgu yn ymwneud â dathlu Diwali a’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a datblygiad plant. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu trwy chwarae, er enghraifft wrth iddynt rolio toes a chwarae yn y 'byd bach'. Trwy sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blentyn a gweithgareddau a arweinir gan oedolion, mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent hefyd yn gwneud defnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i gefnogi'r dysgu'n dda. Mae hyn yn cynnal diddordeb y plant am gyfnodau priodol ac yn eu hannog i ddysgu dros eu hunain.

Mae holl ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant. Mae'r berthynas waith gadarn sy'n bodoli rhyngddynt a'r plant yn cyfrannu at greu awyrgylch o gydweithio a pharch tuag at ei gilydd. Maent yn rheoli ymddygiad yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn canmol y plant am eu hymdrechion trwy gydol y sesiwn. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol a chartrefol sy'n annog ymglymiad a chyfranogiad yn llwyddiannus. Maent yn modelu'r iaith Gymraeg yn briodol gan sicrhau cyfleoedd addas i ymestyn iaith y plant drwy ganu a siarad â nhw yn gyson.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cynnydd y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion priodol o'u datblygiad. O ganlyniad, mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth dda o anghenion pob plentyn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad trwy sgyrsiau rheolaidd a noswaith agored er mwyn trafod llyfr cofnod eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cefnogi iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta'n iach yn effeithiol trwy weithgareddau fel amser diod a ffrwythau. Mae hyn yn caniatáu i blant ddysgu sut i baratoi'r byrbryd yn ogystal â datblygu eu medrau cymdeithasol a llythrennedd yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y plant, er enghraifft trwy annog y plant i drafod teimladau a dangos parch trwy ystod o weithgareddau ac arferion dyddiol.

Sicrheir bod y plant yn cael cyfleoedd cyson i gael ymarfer corfforol y tu fewn a thu allan trwy weithgareddau buddiol. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd da o'r parc lleol er mwyn cynnal gweithgareddau wythnosol, er enghraifft defnyddio'r offer dringo. Mae hyn yn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd y plant yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ailgylchu papur a chardfwrdd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu'n effeithiol yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd priodol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i sicrhau ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu, yn cael yr un chwarae teg a'i drin yn gyfartal.

Mae'r pwyllgor a'r ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr adeilad newydd yn cynnig amgylchfyd dysgu gofalgar, deniadol ac ysgogol sy'n diwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw'n lân. Mae cyflenwad priodol o adnoddau ac ardaloedd dysgu pwrpasol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant ymchwilio a dysgu dros eu hunain.

Er bod yr ardal allanol yn gyfyng yn ôl maint, mae'r ymarferwyr yn datblygu'r ardal yn briodol er mwyn sicrhau profiadau dysgu gwerthfawr yn yr awyr agored. Mae'r plant yn tyfu blodau yn yr ardal allanol sy'n eu haddysgu am fyd natur ac anghenion planhigion yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cymunedol fel y parc cyfagos er mwyn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau corfforol y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr nodau ac amcanion clir a phwrpasol sy'n gosod pwyslais cadarn ar sicrhau lles a chynnydd y plant. Mae'r arweinydd yn rhannu'i gweledigaeth yn llwyddiannus gyda'r holl ymarferwyr ac yn eu cefnogi'n dda. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hun ac o'r holl ymarferwyr. Mae'n defnyddio arweiniad a chyngor gan asiantaethau allanol yn fedrus er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae hyn yn cyfrannu at ethos gweithgar lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan y lleoliad weithdrefnau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ymarferwyr yn flynyddol. Mae hyn yn arwain at hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol sy'n diwallu anghenion ymarferwyr yn briodol, er enghraifft wrth gynnal hyfforddiant i ddatblygu medrau llafar y plant.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod polisïau statudol yn effeithiol. Mae'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth berthnasol gyson gan yr arweinydd sy'n eu cefnogi i wneud penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â'r ddarpariaeth a chyllid. Maent yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n uniongyrchol i sicrhau bod yr adeilad newydd o ansawdd da ac yn bodloni gofynion y staff a'r plant. Maent yn cymryd rhan weithredol ym mhroses rheoli perfformiad yr arweinydd ac yn ymweld â'r lleoliad i drafod materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn rheolaidd.

Mae’r lleoliad yn rhoi sylw gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn ffocysu’n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn ogystal â hybu lles a ffitrwydd.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer adnabod mwyafrif o’i chryfderau yn ogystal ag ychydig o agweddau sydd angen eu gwella. Maent yn casglu barn y rhieni’n fedrus trwy holiaduron rheolaidd ac yn defnyddio adroddiadau monitro partneriaid fel sail i’r trefniadau hyn. Mae cyfarfodydd yr ymarferwyr a’r pwyllgor yn canolbwyntio ar y materion hyn yn rheolaidd ac maent yn gweithredu ar unrhyw bwyntiau gweithredu’n briodol. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn mynd i’r afael â materion pwysig yn y ddarpariaeth sydd angen eu datblygu yn gyflym, er enghraifft cyflwyno rhaglen iaith er mwyn gwella medrau llafar y plant. Mae’r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth gyfredol o waith y lleoliad oddi wrth yr arweinydd ac wrth ymweld â’r lleoliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynnig cefnogaeth briodol yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw’r pwyllgor na’r ymarferwyr yn monitro effaith y ddarpariaeth yn ddigon manwl i fesur yr effaith ar ddeilliannau’r plant. O ganlyniad, nid yw’r adroddiad hunanarfarnu’r lleoliad yn arfarnol nac yn amlygu’r cryfderau a’r meysydd sydd angen gwelliant yn ddigon manwl.

Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n ddiwyd i wella elfennau o’r ddarpariaeth; fodd bynnag, nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a thargedau’r cynllun gwella. Mae’r cynllun yn nodi ychydig o’r meysydd i’w gwella yn briodol, ond nid oes ffocws ddigon clir ar gamau gweithredu defnyddiol, terfynau amser clir na chostau ymarferol. Nid yw’r lleoliad wedi adnabod yr holl feysydd pwysig sydd angen eu gwella er mwyn arwain at wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant yn ddigon effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a phrofiadau dysgu plant. Mae’r berthynas gref rhwng yr ymarferwyr a’r cartref yn sicrhau bod rhieni yn chwarae rôl weithredol yn addysg gynnar y rhan fwyaf o’r plant. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi’r wybodaeth bwrpasol y maent yn ei derbyn am gyflawniadau a chynnydd eu plant. Mae ymarferwyr hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o lyfrau cyswllt a chyfryngau cymdeithasol er mwyn hysbysu rhieni am yr holl brofiadau dysgu diddorol mae’r plant yn eu cael. Mae’r polisi drws agored ynghyd â’r defnydd da o holiaduron rheolaidd yn sicrhau bod rhieni yn cael cyfleoedd da i leisio barn ac i drafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn.

Mae gan y lleoliad gyswllt effeithiol gyda’r ysgol leol sy’n sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr fynychu hyfforddiant, arsylwi arfer dda a rhannu gwybodaeth am y plant. O ganlyniad, mae’r trefniadau trosglwyddo cadarn hyn yn sicrhau bod y plant wedi’u paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin ac yn gweithredu’n gyflym ar gyngor neu arweiniad sy’n cyfrannu at wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Maent yn cydweithio’n briodol gydag asiantaethau arbenigol pan fo angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae'r llyfrgellydd lleol yn ymweld â'r lleoliad yn gyson er mwyn darllen storïau a rhannu llyfrau â'r plant. Yn ogystal, mae gweithgareddau codi arian y pwyllgor a'r rhieni yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol hwyliog i deuluoedd yr ardal.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da o'u profiad a'u harbenigedd er mwyn cefnogi'r plant yn llwyddiannus. Mae systemau rheoli perfformiad priodol yn cefnogi datblygiad y staff yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu eu gwybodaeth a medrau addysgu, er enghraifft trwy fynychu hyfforddiant ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn rheoli adnoddau yn effeithlon ac yn sicrhau cyflenwad da o gyfarpar dysgu sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor ddealltwriaeth dda o sefyllfa ariannol y lleoliad. Maent yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn cydweithio i sicrhau cyllid digonol i'r lleoliad.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |